

19 Addysg a diwylliant

Rhwng 1746 a 1777 sefydlodd Gruffydd Jones o Landdowror 116 o Ysgolion Cylchynol mewn gwahanol blwyfi ym Môn.¹ Syml oedd y cynllun a fabwysiadwyd ganddo. Gofynnwyd i offeiriaid y gwahanol blwyfi gydweithredu, ac weithiau i gymryd yr ysgolion eu hunain. Oni allent, ceisid cael defnyddio eglwys y plwyf, ond os methid, sicrheid tí cyffredin dan ardreth, ac anfonid athro yno i ddysgu dosbarth am tua thri mis. Gwahoddid rhai mewn oed a phlant i roddi eu presenoldeb, a chan fod gan y blaenaf fwy o hamdden yn ystod y gaeaf, cynhelid y dosbarthiadau yn gyffredin y pryd hynny. Yn aml byddai'r offeiriad plwyfol yn holi yr ysgolheigion ar eu gwaith, a gofynnid iddo roddi tysteb i'r athro ar ddiwedd tymor yr ysgol.

Tri mis oedd yr amser arferol a roddid i ysgol mewn ardal, ond weithiau rhoddid ychwaneg neu byddai'r ysgol yn dychwelyd ar ôl ysbaid o amser. Cedwid ysgol nos yn ogystal ag ysgol ddydd, er hwylustod i'r rhai a fethai ddilyn yn ystod y dydd. Prif waith yr athro oedd dysgu yr ysgolheigion i ddarllen y Beibl yn Gymraeg, i'w dysgu ddwywaith y dydd yn Holwyddoreg yr Eglwys, i ymddwyn yn ddefosiynol ac i gymryd eu rhan yng ngwasanaeth yr eglwys yn unol â'r Llyfr Gweddi Gyffredin.

Yn ôl ystadegau Gruffydd Jones, fel y ceir hwynt yn ei *Adroddiadau Blynnyddol* - "Welch Piety" - cynhelid Ysgolion Cylchynol yn Niwbwrch, gydag ambell fwch, o 1747 hyd 1772; wele'r ffigurau :

<i>Blwyddyn.</i>	<i>Nifer yr Ysgolheigion.</i>	<i>Ysgolfeistr.</i>
1747-8	35	
1748-9	33	(Saesneg)
1752-3	50	T.E.
1754-5	45	
1755-6	41	
1758-9	40	
1759-60	35	
1760-1	35	
1771-2	107 a 92	

Yn eglwys y plwyf y cynhelid yr holl ysgolion oddi eithr yr ysgol Saesneg; nid oes wybodaeth ym mha adeilad yr oedd honno.

Yn llawysgrif Cwrtmawr 9 cyfeiriai David Ellis (1741-95) at "Richard Parry athraw ysgol Newbwrch ym Môn", a rhydd dair enghraifft o'i waith fel bardd:

tt. 72-77. "Cerdd dduwiol ei annog Pobl yn eu Ieuenctyd i feddwl am eu Diwedd. Preg. xii", ar King's Ffarwel.

¹ "Gruffydd Jones's Circulating Schools in Anglesey" by Hugh Owen - *Transactions of A.A.S. & F.C.* (1936), pp. 94-109.

Y Cymry mwynion cym'rai amynedd

.....
Trwy Iesu yw perwyl. (144 II.)/192/
tt. 115-119. "Drych Angau, neu Rybudd i feddwl am Farwolaeth", ar Driban.
Pob crefydd, ffydd, pob graddau

.....
Cyn dyfod dyrnod angau. (129 II.).
tt. 119-120. "Cyngor byrr i annog y sawl a ddarllenno'r Drych uchod, i edifarhau am eu Pechodau, a Chysur o wneuthur hynny," ar Leave Land hwyaf.
Y Cymro sufulfryd pwy bynnag wyd hefyd,

.....
Drwy Grist i gael enwau goleuni. (32 II.).
Ceir hefyd gyfeiriadau at Rhisiart Parry, athraw ysgol (Llannerch-y-medd) yn *Llythyrâu Morusiaid* (J. H. Davies), I. 442; II. 478, 535.

Dywaid O. Gaianydd Williams yn ei draethawd ar "Llannerch-y-medd a'i Henwogion"² fod Richard Parry wedi mynd i fyw i Llannerch-y-medd o Niwbwrch. Nid oes yr un cyfeiriad o gwbl at neb o'r enw Richard Parry yng Nghofrestrau Plwyf Niwbwrch o 1721 hyd 1763. Efallai y bu'n athro yn Niwbwrch mewn cysylltiad ag Ysgolion Cylchynol Gruffydd Jones. Bu farw yn Llannerch-y-medd ar 28 Ionawr 1763, yn 50 oed.

Ni wyddom ddim am addysg ym mhlwyf Niwbwrch wedyn hyd oddeutu 1825, ond ceir amryw gyfeiriadau yng nghofrestr y plwyf at un o'r enw Richard Lewis ysgolfeistr. Bu ef farw yn 1809.³

Hyd 1842, y tîrfeiddianwyr a chlerigwyr eglwys Loegr yn unig a godasai adeiladau ar gyfer ysgolion ym Môn, ac yr oedd 15 o Ysgolion Cenedlaethol wedi eu sefydlu yn y Sir erbyn 1829, yn cynnwys Niwbwrch gyda 27 o ysgolheigion.⁴ Yr oedd Bardd Du Môn wedi dechrau cadw ysgol yma yn 1825. Ni chyfrannodd y Llywodraeth unrhyw swm tuag at addysg hyd 1833, pan estynnodd rodd o , 20,000 at gynorthwyo i adeiladu ysgoldai. Rhennid yr arian drwy'r Gymdeithas Genedlaethol a'r Gymdeithas Frutanaid a Thramor. Rhoddwyd yr un swm bob blwyddyn hyd 1839, pryd y cyfrannwyd , 30,000 a phenodwyd pwyllgor i edrych i mewn i'r modd y defnyddid yr arian.⁵ O'r pwyllgor hwn y datblygodd y Bwrdd Addysg a ddaeth i fod yn 1870.

Parhaodd Bardd Du Môn gyda'i ysgol ddyddiol yn Niwbwrch hyd 1844, pan fu raid iddo neilltuo oherwydd afiechyd; ond bu ganddo ysgol nos ar adegau am flynyddoedd wedyn, er budd llanciau o forwyr ac eraill a oedd yn rhy hen i fyned i ysgol ddyddiol. Ysgolfeistr arall a fu'n athro i lawer o forwyr ydoedd Owen Roberts,

² *Hanes a Chyfansoddiadau Arobryn Eisteddfod Llannerchymedd*, 1911 (Llangefni : 1912), tud. 59.

³ Sonir yn llyfrau y Gorfforaeth am ysgol yn Niwbwrch; gweler tud. 35

⁴ *Hanes Môn*, gan E.A.W., tud. 252.

⁵ *Ibid*, tud. 254.

mab /193/i Shon Robert Lewis a brawd Robert Roberts, yr almanaciwr.⁶ Dywedir bod merch o Gaernarfon wedi ymsefydlu yn Niwbwrch, mewn tí o'r enw Pen-y-gongl, i geisio addysgu plant y pentref, ac mai 3d [1p] y pen yn yr wythnos oedd y ffi yn ysgol Pen-y-gongl. Ond gan na allai rhieni y plant fforddio hyn yn y cyfnod hwnnw, ni pharhaodd yr ysgol yn hir.⁷

Tua'r flwyddyn 1835 agorwyd yr Ysgol Genedlaethol yn Llangeinwen, wedi ei hadeiladu wrth ymyl yr eglwys drwy fawr sêl y Parch. William Wynn, M.A. o'r Menai-fron, rheithor Llangeinwen-cum-Llangaffo. Yr oedd mewn man mor hwylus i blant Niwbwrch a Llangaffo ag ydoedd i blant cyrrau pellaf plwyf Llangeinwen. Yma yr addysgwyd ugeiniau o blant Niwbwrch, heblaw plant y plwyfi cyfagos. Parhaodd yr ysgol hon hyd 1873, pryd y sefydlwyd Bwrdd Ysgol Llangeinwen ac y trosglwyddwyd hi ac Ysgol Frutanaidd Dwyran i ofal y Bwrdd.

Ymhen ychydig flynyddoedd ar ôl agor Ysgol Genedlaethol Llangeinwen, cychwynwyd Ysgol Frutanaidd ynghwr pentref Dwyran. Daeth nifer o blant Niwbwrch - Anghydfurfyr, mae'n debyg - i ysgol Dwyran. Parhaodd hyn hyd 1867, pryd yr agorwyd Ysgol Frutanaidd yn Niwbwrch. Adeiladwyd hon am , 2,000 o gost. Derbyniwyd y tir i'w chodi arno, ynghyda rhodd o , 200, oddi wrth Mri. Davies, Porthaethwy, a thalwyd y gweddill gan eglwys M.C. Niwbwrch. Naturiol y pryd hynny oedd i'r rheithor ac aelodau eglwys y plwyf atal eu llaw rhag cynorthwyo yn y mudiad hwn. Am wyth mlynedd bu Ysgol Sabbothol y M.C. yn Niwbwrch yn casglu , 30 y flwyddyn i wneud i fyny gyflogau yr athro a'r wniadyddes.⁸

Dywedir bod ysgol yn cael ei chynnal mewn tí - "Bryn-teg" - rhyw amser cyn 1867. Bu'r Ffestri yn ymgynnull yn "School House" (Ysgoldy) yn 1853, ond nid oes sicrwydd lle'r oedd hwnnw (os nad Bryn-teg), ac ychwaith ni chynhelid ysgol ddyddiol yno y pryd hynny. Ym Mawrth 1866 yr oedd y *Poor Law Board, Whitehall, S.* wedi caniatáu (drwy'r *Carnarvon Union*) i blwyf Niwbwrch werthu holl eiddo'r plwyf ac i ddefnyddio'r *llog* ar yr arian a dderbynnid i ostwng treth y tlodion *neu* i gymryd yr arian i adeiladu ysgol.

Yn ôl ffurflen swyddogol ynghadwraeth ysgolfeistr y pentref, agorwyd ysgol dan unto tí Capel y Methodistiaid Calфинаidd ar 27 Chwefror 1867. Dodrefnwyd yr ystafell i bwrpas addysg gan Ymddiriedolwyr. (Gweler plan o'r lle, Rhif 26).

Maint yr ystafell oedd 40 troedfedd o hyd, 12 o led, a 15 o uchder. Nifer yr ysgolheigion oedd 80. Talent bob un 1d [½p] yr wythnos, oddi eithr 4 yn talu 2d [1p] am fod eu rhieni yn fwy cefnog na'r lleill. Deuai /194/hyn i , 16 y flwyddyn, a derbynnid , 55 oddi wrth gasgliadau yn y capel (M.C.) a *grant* y Llywodraeth. Talwyd , 65 yn gyflog i'r athro, , 6 am lyfrau, &c., 15/- am danwydd a golau, , 2.14.0 am adgyweiriadau, a , 3.10.0 am fân dreuliau. Felly, costiai bob plentyn , 1.0.93 [£1-5p] y flwyddyn. Yr ysgolfeistr oedd Owen Griffith, ef yn athro trwyddedig o'r Coleg

⁶ *Hanes Mon*, gan E.A.W. tud. 267.

⁷ *Ibid.* tud. 264.

⁸ Dywedir, ond nid yw wedi ei brofi, fod ysgol yn gysylltiedig âg eglwys M.C. Niwbwrch yn 1834

Normal ym Mangor (Chwefror - Rhagfyr 1863), a chyn hynny yn ddisgybl-athro yn Llanrhuddlad. O Ysgol Frutanaidd Llannerch-y-medd y daeth i Niwbwrch.

Ym Mawrth 1867 derbyniwyd "grant of school materials" oddi wrth y *British & Foreign School Society, Borough Road, S.E.* Tri mis yn ddiweddarach addawodd *Education Department, Privy Council Office, Downing St., S.W.* daliad o , 244.12.6 [£244 - 63p] tuag at gost adeiladu ysgol, tí i'r athro, a dodrefn ystafelloedd yr ysgol. Ar 3 Gorffennaf 1867 cytunwyd â William Pritchard a'i Fab o'r Gaerwen i adeiladu Ysgol Frutanaidd newydd gyda thí i'r ysgolfeistr yn Niwbwrch am , 749. Tanysgrifiwyd , 337 gan wahanol bobl yn y plwyf hefyd. Y dyn a fu'n ysgrifennydd dyfal a diwyd i'r holl fudiad hwn oedd Griffith Jones, Maes-y-ceirch-dir, a mawr yw dyled plant yr ardaliddo.

Yn dilyn ceir enwau rheolwyr Ysgol Frutanaidd Niwbwrch yn 1868:

Richard Hughes, Bodowyr; Escue Davies, Newborough;
Samuel Davies, Newborough; Hugh Lewis, Brynsinc;
William Roberts, Maes-y-ceirch-dir; Owen Lewis, Church Street;
Daniel Hughes, Palas Street; Owen Evans, Chapel Street;
Hugh Hughes, Church Street; R. P. & W. Jones, Shop;
Richard Jones, Tyn y Coed; William Thomas, Llwyn ysgaw;
Capn. Roberts; Capn. Griffiths; Hugh Jones, Tí Gwyn;
Griffith Griffiths, Pendre; William Evans, Shop;
Owen Lewis, Joiner; Robert Hughes, Tyddyn pwrpas;
Hugh Hughes, Esq., *Chairman*; Owen Lewis, *Treasurer*;
Griffith Jones, Maes-y-ceirch-dir, *Hon. Secretary*.

Yn Ionawr 1868 trefnodd y rheolwyr gyda'r athro fod ei gyflog i'w dalu fel hyn: (1) yn ôl , 20 y flwyddyn oddi wrth y rheolwyr; (2) yr arian a delid gan y plant; (3) y cwbl o'r *Government Grant*.

Cynnill iawn yw'r nodiadau yn llyfrau log yr ysgol. Mae'n amlwg mai'r amcan oedd dweud cyn lleied ag oedd yn bosibl, gan dybied mai hynny a fyddai'r doethaf (fel gyda tyst mewn llys gwlad !); anaml y cyfeirid at unrhyw un wrth ei enw, oherwydd yswildod neu ochelgarwch bwriadol. Ond ceir ambell eitem ddiddorol:

"July 8, 1868. One girl (not on the Lists) attended for the Day instead of another."

Rhyw fam o bosibl eisieu llawn gwerth y geiniog a dalwyd am yr wythnos!

"Aug. 31, 1868. Reopened school in the new room."

Gresyn na fuasai dipyn ychwaneg o hanes yr amgylchiad pwysig hwn./195/

“Oct. 13, 1868. A young man (preparing for the ministry) from the centre of the county called to say he intends coming to school next week.”

Tybed a geir byth wybod enw'r brawd hwn ? Wele'r fantolen olaf sydd ar gael ynglŷn â'r hen ysgol Frutanaidd:

NEWBRO' BRITISH SCHOOL FOR THE YEAR ENDING APRIL 30, 1875

	,	s.	d.		,	s	d
From Council	51	0	0	Balance	30	17	02
Private Individuals	25	10	0	Salary of teacher	92	0	0
Collection at chapel	5	10	0	Pupil-teacher	6	0	0
Schoolpence -				Monitor	1	0	0
Boys	11	13	0	Books Apparatus			
Girls	9	7	2	& Stationery	1	8	0
	21	0	2	Fuel & Light	1	1	0
Books sold to children	0	16	0	Sewing Mistress	4	0	0
Balance	34	11	10	Repairs to Building	2	15	0
				Cleaning	1	18	0
	141	8	02		141	8	02

Yn ôl tystiolaeth cofnodion cyfarfod Festri Niwbwrch a gynhaliwyd yn Chwefror 1872, ymddengys i'r Festri wrthod mabwysiadu y Ddeddf Addysg newydd (1870). Tair blynedd yn ddiweddarach, penderfynodd y Festri sicrhau 24 o bobl i ymrwymo i gyfrannu ,2 yr un yn flynyddol (10/- [50p] bob chwarter) i Drysorydd penodedig tuag at gario yr ysgol ymlaen “s'yn awr mewn bodolaeth.” Gyda dyfodiad Bwrdd Ysgol i Niwbwrch, syrthiodd y draul yn deg ar yr holl blwyfolion yn ddiwahaniaeth.

Ni wyddis amser dechreuad y Bwrdd Ysgol yma (tybid mai oddeutu 1876), ond mewn cyfarfod o'r Festri ar 28 Mehefin 1881 penodwyd pum aelod i ffurfio Bwrdd Ysgol am y tair blynedd dilynol, sef H. O. Hughes, Cefnmawr; Thomas Thomas, Caecoch; Hugh Evans, Chapel Street; David Evans “White Lion”; ac R. P. Jones, Cambrian House. Hefyd, diolchwyd i'r Bwrdd *oedd yn ymddeol* am eu gwasanaeth. Ond teilwng o sylw yw'r ffaith fod y Festri wedi cyfarfod yn y “British School” (1870, 1872, 1874), yn y “School Chapel” (1875), a'r “Board School” o 1879 ymlaen. Dyma restr o ysgolfeistriaid Niwbwrch er 1867:

Owen Griffith,	27 Chwefror	1867 hyd 24	Rhagfyr,	1874;
David Williams,	28 Rhagfyr	1874 hyd 2	Rhagfyr	1891;
D. Pryse Jones,	7 Rhagfyr	1891 hyd 25	Gorffennaf	1919;
Owen Thomas Owen,	9 Medi	1919 hyd 27	Tachwedd	1925;
Owen Thomas,	11 Ionawr	1926 hyd 28	Medi	1945;
William H. Roberts,	4 Mawrth	1946 -		




Fig. 26 Plan o Ysgol Niwbwrch yn 1867 [Plan of Newborough School in 1867]

/196/EISTEDDFOD NIWBWRCH.

Allan o 102 eisteddfodau a gynhaliwyd ym Môn y ganrif ddiwethaf, ni chynhaliwyd onid un yn Niwbwrch, a hynny ar 20 Medi 1842.⁹ Rhyw eisteddfod ar yr heol, yn yr awyr agored, ydoedd hi.

Cyhoeddodd trigolion y dreiflan eu bod yn awyddus i roddi ariandlws am farwnad er cof am eu diweddar reithor, y Parch. Henry Rowlands, Plâs-gwyn, Llanedwen, gēr a fuasai'n hynod am ei elusengarwch. Y Bardd Du a enillodd y tlws a gynigid yn wobwr gyntaf, a Glan Dinam yr ail wobwr o ddau gini. Y beirniaid oedd y Parchn. Isaac Jones, Llanedwen, J. H. Williams, Llangadwaladr, a J. Roberts, Llangristiolus. Eisteddent hwy a'u cyfeillion ar lwyfan a osodasid o flaen y “White Lion.” Felly y mae'n rhaid bod pawb arall yn sefyll ar yr heol sy'n digwydd bod yn llydan yn y llecyn hwnnw.

Ymhlith y gwahoddedigion yr oedd y “Parch. Mr. Ambrose” o Borthmadog. Anerchodd ef y dorf yn bwrpasol ac adroddodd Huw Prisiart benillion addas i'r amgylchiad. Trigai ef yn Twnti, Niwbwrch, yr adeg hon. “Gogrwr” (h.y. un yn

⁹ A.A.S. & F.C. Transactions (1923), pp. 86-7.

gwneud gograu) oedd wrth ei alwedigaeth, ond tua chanol oed cafodd ddamwain fel na allai ddilyn yr alwedigaeth ograwl. Oherwydd hynny ceisiai ennill ei fywoliaeth i ddiwedd ei oes drwy gario siop fach ar ei gefn draw ac yma hyd y wlad, ac fe'i perchid yn fawr gan liaws mawr o'r Monwyson ymhob cwr. Carolau yw ei farddoniaeth sydd ar gael, ac yr oedd bri mawr ar eu canu yr adeg honno. Argraffwyd dwy ohonynt (yn *Cymru* XII.), un ar y dôn "Consêt Gwyr Aberffraw" a'r llall ar "Gwel yr Adeilad."¹⁰ Un tro anfonodd Huw at William Ifan y gwehydd¹¹ fel hyn:

“Mae Huw yn egwan brydydd
A'i ddawn anniddan noeth
Yn gyrru at fab Ifan
Y Cymro diddan doeth
A all ef hepgor amser
I rodio i ben yr allt
Fel gallo dorri dipyn
O frig fy ngwydn wallt”

Aeth William Ifan ato gan ei gyfarch: “Wel, Huw Prisiart, a'i ddwy rês botymau!” Fel ergyd daeth ateb Huw, “Y teiliwr a'm twyllodd i gael tâl am wneud y tyllau.”

Bu i nai y Parch. Henry Rowlands, sef Mr. C. H. Evans, dalu yr holl gostau ynglŷn â'r "Eisteddfod" hon, a rhoddodd ginio i'r beirdd a'r gwahoddedigion. Defnyddiwyd y casgliad a wnaed gan bobl Niwbwrch i brynu coflech hardd i Henry Rowlands, a gosodwyd hi ar fur y tu fewn i'r eglwys./197/

SEFYDLIAD PRICHARD-JONES.

Mewn tafliad carreg i'r ysgol ddyddiol agorwyd "Coleg" yr ardal ar 30 Mehefin 1905. Rhoddwyd yr adeilad a'r gwaddoliad yn rhodd am byth i drigolion Niwbwrch gan Syr John Prichard Jones, Barwnig, ef ei hun yn un o blant y dreffan.

Yn ôl gweithredoedd yr eiddo, yr oedd y lle i'w ddefnyddio mewn modd hollol anenwadol ac amhleidiol, a phawb i gydweithio gydag un amcan mewn golwg, sef oedd hwnnw hyrwyddo datblygiad corff a meddwl. Buddsoddwyd yr eiddo mewn ymddiriedolwyr swyddogol gyda'r Llywodraeth, i ofalu bod yr arian yn cael eu talu i'r banc yn enw yr ymddiriedolwyr gweithredol, a'r rheini yn ystod eu hoes, a fyddai ei ddau frawd (y Parchedig William Jones a Mr. R. P. Jones, Cambrian House) ac yntau ar y dechrau. Yna trefnwyd Bwrdd o Lywodraethwyr, sef Cadeirydd y Cyngor Dosbarth, y Cynghorwr Sirol dros y dosbarth, rheithor y plwyf, gweinidogion capeli Niwbwrch, prifathro ysgol y Cyngor yn Niwbwrch, a thri eraill a ddewisid ganddynt, un o'r rhai hyn i fod yn ferch.

¹⁰ *Hanes Mon*, gan E.A.W. tt. 296-7

¹¹ Taid i William Evans, Tyddyn - bercyn (gynt).



Fig. 27 Sefydliad Prichard-Jones [Prichard-Jones Hall]

Yr oedd Syr John wedi prynu eiddo ynghanol dinas Llundain, gwaith rhyw bum munud o gerdded oddi wrth y *Bank of England*, a chynhyrchai yr eiddo y pryd hynny , 255 y flwyddyn; ond erbyn 1905 yr oedd wedi ei brisio i ddwyn ardreth flynyddol o , 900. Yn ôl y gweithredoedd fe osodir allan fod unrhyw swm a geir oddi wrth yr eiddo uwchlaw ,255 i gael ei dalu i Gyngor Sirol Môn, a hwythau mewn ymgynghoriad ag awdurdodau Coleg y Brifysgol ym Mangor i'w roddi i gynorthwyo bechgyn a genethod o'r ardal hon ym Môn i gael addysg uwchraddol.

Mae'r adeiladau yn werth manylu arnynt. Wedi myned i mewn trwy'r lliardiadau cryfion, gwelir bod popeth wedi ei drefnu i wneud y lle yn atyniadol. Cyn cyrraedd yr adeiladau cyhoeddus gwelir ar y dde a'r aswy iddynt chwe bwthyn hardd yn wynebu lawnt brydferth. Cynnwys bob bwthyn bedair ystafell - cegin, parlwr, ystafell-wely, a phantri. Eu defnydd yw gwenithfaen o'r sir, ac mae'r muriau oddi allan wedi eu haddurno â cherrig Rhiwabon. Ni all neb ond rhai sydd wedi byw ym mhlwyf Niwbwrch am o leiaf ddeng mlynedd fyned i fyw yma. Maent yn agored i rai priod neu sengl, ond rhaid i bob dyn fod yn 60 mlwydd oed a phob merch yn 45. Rhaid iddynt fod wedi arwain bywyd dilychwin, oherwydd dyma'r unig ffordd i gadw rhai o gymeriadau amheus ymaith. Nid oes yma le ychwaith i blant ieuainc. Derbyniai preswylwyr y bythynnod bensiw bob mis, sef 30/- [£1-50p] i bob gŕer a gwraig, ac 20/- [£1] i bob un sydd yn bwy ar ei ben ei hun.

Gwych yw'r prif adeilad. Mae hwn at wasanaeth trigolion plwyfi Niwbwrch, Llangeinwen, Llanidan, Llangaffo a Malltraeth. Ceir yma lyfrfa ragorol, yn cynnwys (ar agoriad yr adeilad) oddeutu 200 o lyfrau Cymraeg, a channoedd lawer o rai Saesneg. Nid nofelau yn unig sydd yma chwaith, ond barddoniaeth, a digon o lyfrau diwinyddol, llenyddol ac addysgiadol, llyfrau i ddifyrru yn gystal ag i gyfrannu dysg. Yr Athro W. Lewis Jones o Goleg y Brifysgol /198/ym Mangor a ddewisodd yr holl lyfrau. Yma hefyd mewn gorchudd gwelir *regalia* hen Gorfforaeth Niwbwrch, sef y brysyll arian, y mesurau pres, a'r sêl. Mewn ystafell gyfagos ceir newyddiaduron dyddiol ac wythnosol, a gwahanol gylchgronnau. Mae yr adeiladau o gerrig cyffelyb i'r bythynnod.

Yn ymyl y ddarllenfa mae ystafell i gael sgwrs a mygyn, ynghydag ystafell goffi a lle i ymolchi; un arall hefyd lle y chwaraeir *billiards* a snwcer. Mae y grisiau yn ddigon llydan i drol, ac yn arwain i ystafell eang lle y gall y pentrefwyr gynnal eu cyfarfodydd. Drwy ffenestr fawr hon ceir golygfa ardderchog o Fenai a mynyddoedd Arfon - pob un ohonynt megis yn ymsythu i gael gweled y Sefydliad hwn! Yn agos iddi ceir ystafell ddarllen i'r merched, ac un arall at wasanaeth y pwyllgor.

Cynllunydd yr adeiladau oedd Mr. Rowland Lloyd Jones o Gaernarfon, a'r adeiladydd Mr. Hugh Hughes o Niwbwrch. Costiodd y cyfan , 6,000, a rhoddodd Syr John Prichard-Jones , 13,000 at bensiwn y personau yn y bythynnod ac at gynnal y Sefydliad.

NIWBWRCH A'I PHOBL HEDDIW.

Erbyn hyn mae Pen-lôn bron yn bentref yn y plwyf. Pery amaethyddiaeth yn brif waith y trigolion. Gresyn na cheid gwell moddion i anfon cynnyrch gerddi a môn dyddynnau i farchnadoedd; mae angen mawr am ychwanegu nifer y mân ddaliadau gydag adeiladau cyfaddas. Gwneir defnydd da o ran helaeth o'r tywyn gan y *Forestry Commission* i blannu coed.

Cynhelir o flwyddyn i flwyddyn ddosbarth o dan nawdd y W. E. A. Ceir Cymdeithas Lenyddol ynglŷn â Chapel y Methodistiaid Calфинаidd yn ystod misoedd y gaeaf, ac yn agored i rai dros 14 oed. Yn yr haf bydd Sefydliad Prichard-Jones yn agored o 11 y bore hyd 9 y nos, ac yn y gaeaf awr yn hwyrach yn y bore. Rhyw 4,500 yw nifer y llyfrau; tanysgrifiad aelod yw 1/- [5p] wrth ymuno. Benthycir oddeutu 3,000 o lyfrau yn flynyddol, ac o'r rheini y mae eu hanner yn nofelau.

I adnabod pobl, rhaid byw gyda hwy; dyna paham y dylid cymryd barn dieithriaid amdanynt *cum grano salis*. Pobl wresog eu teimladau a hawdd eu cynhyrfu yw trigolion Niwbwrch. Eglura hyn y rhan flaenllaw a gymerwyd ganddynt yn yr Adfywiad Methodistiaid cyntaf, ac wedyn yn 1859. Bydd ryw gynnwrf yn Niwbwrch ynglŷn â phob etholiad, ond bidd Llangaffo a Dwyrân yn dawel a di-stêr. Yr enghraifft ddiwethaf o hyn yw penderfyniad y plwyfolion na fynnent eu rhwystro i fyned i Ynys Llanddwyn pan fynnent.



Fig. 27a Stryd Fawr, Niwbwrch yn y 1920s [High Street, Newborough in the 1920s]

Eu nodwedd arbennig yw eu diwydrwydd a'u darbodaeth; nid oes yno brinder arian, ond fe'u cedwir o'r golwg. Llauer i fam amser a fu a dreuliodd nosweithiau cyfain yn plethu matiau morhesg er mwyn cael arian i gynorthwyo ei phlant i lwyddo yn y byd. Pan fo angen ar rhyw un yn yr ardal, daw eu caredigrwydd cynhenid i'r golwg ar unwaith.

/199/Y mae'r teimlad tylwythol (*clannishness*) yn gryf yn eu plith; annoeth fyddai i ddiethrddyn ymwithio ac ymyrryd â'u hachosion. Hwyrach y ceir weithiau y gair garw ymlaenaf, ond oddi tanodd cura galon garedig. Pobl annibynnol iawn ydynt, uchel a balch, o genhedlaeth i genhedlaeth. Adroddir hanesyn sy'n enghraifft o'r ysbryd annibynnol hwn. Oddeutu 1750 aeth Duc Bedford, Arglwydd Raglaw Iwerddon, i Lyn-llifon ar ymweliad â'i gyfaill, Syr John Wyn. Pan oedd ar gychwyn tuag Iwerddon, aeth Syr John a gosgorddllu i ddanfôn y Duc dros Abermenai a thrwy Niwbwrch i gyfeiriad Caergybi. Gwelsant lawer o drigolion Niwbwrch yn nrysau eu tai yn gweithio matiau. Ar ôl eu myned drwy y drefflan, datganodd y Duc ei syndod oherwydd na ddaethai neb o'r trigolion ar ei ôl i ofyn elusen ganddo, fel yr arferid mewn pentrefi gwledig pan âi gêr mawr a'i osgordd drwodd.¹²

Barned y darllenydd faint o'r nodweddion hyn a darddai o fywyd a phrofiad yr hen fwrdeisiaid gynt.

¹² *Hanes Niwbwrch*, gan O.W. tud. 59.